**Nodyn Cyfarfod Cyngor Datblygu'r Economi**

**Amser:** 10:30 – 12.30
**Dyddiad:** 10 Mehefin 2019
**Lleoliad:** Caerdydd 1, 2 a 3, Parc Cathays, Caerdydd.

**Gweinidogion yn Bresennol**

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Ken Skates AC | Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth |
| Lesley Griffiths AC | Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig |
| Lee Waters AC | Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth |

**Rhanddeiliaid yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Lloyd Powell | Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig |
| Ian Price | Cydffederasiwn Diwydiant Prydain |
| Sally Gilson | Y Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau |
| Martin Warren | ICAEW |
| Robert Lloyd Griffiths | Sefydliad y Cyfarwyddwyr |
| Ifan Glyn | Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr |
| Ben Cottam | Y Ffederasiwn Busnesau Bach |
| Kay Powell | Cymdeithas y Cyfreithwyr |
| Heather Myers | Siambr Fasnach De Cymru |
| Derek Walker | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Peter Hughes | TUC Cymru |
| Mark Judd | Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru |
| Rhys Williams | RHA |
| Nigel Keane | Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru |
| Paul Byard | EEF (Cadeirydd Commerce Cymru) |
| Heather Eason | Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru |
| Nisreen Mansour | TUC Cymru |
| Martin Mansfield | TUC Cymru |
| Ceri Williams | TUC Cymru |
| Leigh Hughes | Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru (WESB) |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Shan Morgan DCMG | Yr Ysgrifennydd Parhaol |
| Julie-Ann Haines | CML |
| Ruth Brady | TUC Cymru |
| Mark Harris | Y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi |
| Martin Mansfield | TUC Cymru |
| Martin McAuley | Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig |
| Huw Thomas | Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr |

**Swyddogion Llywodraeth Cymru**

| | |
|---|---|
| Andrew Slade | |
| Tracey Burke | |
| Jonathan Price | |
| Simon Jones | Ar gyfer eitem Argyfwng Newid yn yr Hinsawdd |
| Sioned Evans | Ar gyfer eitem y Polisi Economaidd Rhanbarthol |
| Peter Ryland | Ar gyfer eitem y Polisi Economaidd Rhanbarthol |
| Marcella Maxwell | |
| Emma Watkins | |
| Julian Carpanini a Brett John | Cofnodwyr |

**Eitem 1 - Cyflwyniadau a Sylwadau Agoriadol**

1. Gwnaeth Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth agor y cyfarfod drwy groesawu'r aelodau i ail gyfarfod 2019. Esboniodd y byddai'n gadael y cyfarfod yn gynnar i fynd gyda Phrif Weinidog Cymru i gyfarfod yn ymwneud â Ford. Cyfeiriodd at agenda diwygiedig nad oedd yn cynnwys eitem UFA a chyhoeddodd y byddai nodiadau a chamau gweithredu'r cyfarfod diwethaf yn cael eu gwneud all-lein.

   ***CAM GWEITHREDU – Bydd swyddogion yn casglu sylwadau all-lein gan aelodau ar gofnodion a chamau gweithredu cyfarfod mis Chwefror***

2. Gwnaeth Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth groesawu Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig i'r cyfarfod ar gyfer Eitem 1 ar yr agenda a Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ar gyfer Eitem 2. Croesawodd Leigh Hughes, WESB, a fyddai'n darparu diweddariad ar Sgiliau.

3. Cyhoeddodd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ymddiheuriadau gan Yr Ysgrifennydd Parhaol, Martin Mansfield, Ruth Brady, Julie-Ann Haines, Mark Harris a Huw Thomas.

4. Nododd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth y tri phrif eitem ar yr agenda:

   a) Yr Argyfwng Newid yn yr Hinsawdd
   b) Y Polisi Economaidd Rhanbarthol yng Nghymru
   c) Gwella'r Amgylchedd Masnachu yng Nghymru

5. Cyn trafod yr eitem gyntaf, gwnaeth Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth roi diweddariadau ar Ffordd Liniaru'r M4 a Ford.

6. **Ffordd Liniaru'r M4:** Gwnaeth Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth gyfeirio'r Aelodau at ddatganiad Prif Weinidog Cymru ar 4 Mehefin lle y cyhoeddodd na fyddai'r ffordd liniaru yn mynd rhagddi a'r rhesymau dros hynny, gan gynnwys pryderon ariannol ac amgylcheddol. Rhoddwyd y dasg bellach i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth i nodi a gweithredu cyfres o ymyriadau trac cyflym a dargedwyd i liniaru tagfeydd ar yr M4 yn ne Cymru.

7. **Ford:** Amlinellodd y Gweinidog agweddau allweddol ei ddatganiad ar 6 Mehefin. Mynegodd ei syndod ynghylch y cyhoeddiad a disgrifiodd yr ymdeimlad o gael ei siomi gan y cwmni o ystyried cyflymder y penderfyniad. Cyfeiriodd at sefydlu Tasglu i helpu i liniaru nifer y swyddi a’r ffrydiau gwaith a gollir ac y byddai’n gyfrifol am helpu'r bobl yr effeithiwyd arnynt, helpu'r rhanbarth i baratoi ar gyfer cyfnod ar ôl Ford ac annog buddsoddiad newydd. Mae'r mater hwn wedi'i godi ar lefel Llywodraeth y DU a gwnaeth Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth gyfeirio at sgyrsiau sy'n parhau â Greg Clarke, yr Ysgrifennydd Gwladol yn BEIS. Gwnaeth Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth nodi fod Ford wedi’i synnu gan ffyrnigrwydd sylwadau rhanddeiliaid yn ymwneud â'r cau.

8. Roedd aelodau'r Cyngor yn rhannu siom y Gweinidog. Roedd consensws fod y penderfyniad wedi'i wneud yn rhy gynnar. Dyma oedd y prif bwyntiau trafod:

   i. Pwysleisiodd **FSB Cymru** bwysigrwydd mapio'r gadwyn gyflenwi i sicrhau bod mesurau cymorth i'r sector cyhoedd wedi'u targedu'n dda. Cwestiynodd barodrwydd Ford i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru? Gwnaeth Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth gadarnhau nad oedd Ford yn amau o gwbl ei gyfrifoldeb i fod yn bartner gyda Llywodraeth Cymru i geisio lleihau'r effaith.

ii. Cynigiodd **RHA** ei gefnogaeth lawn i Lywodraeth Cymru a chyfeiriodd at brinder sgiliau yn y sector logisteg. Dywedodd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ei fod yn gobeithio y byddai cronfa etifeddol gan Ford a fyddai'n bosibl ei defnyddio ar gyfer hyfforddiant.

iii. Cynigiodd **CBI Cymru** ei gefnogaeth lawn i Lywodraeth Cymru.

iv. Pwysleisiodd **TUC Cymru** fod yr asesiadau cychwynnol yn awgrymu y byddai rhwng 4,000 a 4,500 o weithwyr yng nghadwyn gyflenwi Ford yn cael eu heffeithio i raddau mwy neu lai Roedd rhai cwmnïau a effeithiwyd hefyd yn cyflenwi Honda felly roeddent ar fin profi ergyd ddwbl. Roedd o blaid cyflogeion y gadwyn gyflenwi yn derbyn chwydd-daliad yn hytrach na'r isafswm taliad statudol.

**EITEM 2 – Argyfwng Newid yn yr Hinsawdd**

9. Gwnaeth Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth gyflwyno'r eitem hon. Dywedodd ei fod yn credu ei fod yn hanfodol i ddull gweithredu partneriaeth ystyried sut y gallai Cymru fod mewn sefyllfa gystadleuol i nodi cyfleoedd carbon isel byd-eang ond hefyd i sicrhau ein bod yn gydnerth wrth wynebu economi byd-eang sy'n newid. Gwnaeth Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth drosglwyddo'r awenau i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig i arwain y drafodaeth.

10. Cyflwynodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig y papur a ddosbarthwyd i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Nododd mai'r Cynulliad Cenedlaethol oedd y Senedd gyntaf yn y byd i ddatgan argyfwng hinsawdd i ddangos ei fod yn cydnabod yr angen i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ar frys. Nododd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig fod angen eglurder a sicrwydd ar fusnesau o ran penderfyniadau buddsoddi i fynd i'r afael â'r her a ddaw o'r bygythiad gan newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag, roedd cyfleoedd economaidd sylweddol i gwmnïau sy'n symud yn gyflym. Nododd fod y camau gweithredu yng nghyllidebau Carbon Llywodraeth Cymru yn ddibynnol ar arweinyddiaeth ar y cyd a gweithredu ar y cyd. Gwahoddwyd yr aelodau i rannu eu safbwyntiau. Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys y canlynol:

i. Cyfeiriodd **Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru** at y lefel uchel o ymwybyddiaeth o ran newid yn yr hinsawdd ymhlith ei aelodau ond lefel isel o ddealltwriaeth o ymyriadau Llywodraeth Cymru yn arbennig ymhlith ei fusnesau llai. Gofynnodd am eglurhad o ran beth roedd y datganiad argyfwng yn ei olygu go iawn? Ac a fyddai cymorth Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol? Nododd fod y Ffederasiwn Busnesau Bach yn y broses o ddatblygu papur o safbwynt y DU ac awgrymodd y byddai angen i Gymru drefnu ei hun yn fwy effeithiol i lywio'r ddadl ar lefel Llywodraeth y DU.

ii. Awgrymodd **CBI Cymru** fod 'creisis' ('crisis') yn ddisgrifiad mwy addas yn hytrach nag argyfwng ('emergency'). Cyfeiriodd at y gwaith gwych sydd eisoes yn mynd rhagddo a phwysigrwydd casglu a rhannu arferion gorau. Nododd ei gefnogaeth i Lywodraeth Cymru yn y maes hwn a chynigiodd ei gymorth.

iii. Pwysleisiodd **TUC Cymru** yr her o drawsnewid i economi carbon is ac y bydd angen sicrhau cydbwysedd wedi'i ystyried yn ofalus. Ar un llaw, mae manteision economi carbon isel yn cael eu cydnabod yn llawn, ond byddai cyfnod pontio diofal yn drychinebus i unigolion sy'n gweithio mewn cwmnïau cynhyrchu carbon uwch. Dadleuwyd dros ddatblygu cynlluniau pontio a hefyd pwysigrwydd cael diwydiannau yn yr arfaeth i gymryd lle'r hen rai er mwyn sicrhau nad yw dyfodol economaidd Cymru yn cael ei niweidio. Byddai cynllunio a llunio polisi rhwng tair ochr yn cynorthwyo'r broses honno.

iv. Cyfeiriodd **WESB** at fyd busnes amlhaenog gyda chwmnïau mwy eisoes yn pontio. Y cwmnïau llai sydd angen mwy o gymorth ac anogaeth ac roedd enghreifftiau arferion gorau niferus ledled y byd yn bodoli er mwyn hwyluso'r dysgu hwnnw. Roedd angen dull gweithredu cydlynus.

v. Nododd **Commerce Cymru** fod cwmnïau yn yr Almaen wedi dechrau cynllunio ar gyfer hyn 20 mlynedd yn ôl ac felly roedd dealltwriaeth dda o'r broses yno. Mae angen i Gymru fanteisio ar arbenigedd ac annog arloesi a fyddai'n gwneud y cyfnod pontio yn fwy esmwyth.

11. Nododd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth mai'r cwestiwn allweddol i'r Aelodau yw sut y byddent yn creu economi newydd yn seiliedig ar yr agenda newid yn yr hinsawdd? Roedd y cwestiwn ynghylch marchnad fewnol y DU yn enfawr ac ni allai Cymru ddilyn polisïau a fyddai'n ei gwneud yn llai cystadleuol na busnesau dros y ffin. Gan adleisio sylwadau TUC Cymru, pwysleisiodd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth bwysigrwydd sicrhau bod buddiannau'r bobl eu hunain yn cael eu hadlewyrchu yn y polisïau newydd.

12. Esboniodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig fod y disgrifydd 'argyfwng' wedi'i fabwysiadu o ystyried bod yr asesiadau diweddaraf yn cefnogi'r ffaith mai dim ond 12 mlynedd oedd gan y byd i weithredu cyn bod y sefyllfa'n ddi-droi-nôl. Cydnabu ymgysylltu cadarnhaol Cydffederasiwn Diwydiant Prydain â Llywodraeth y DU. Diolchodd i'r aelodau am eu cyngor ynghylch rhannu arferion gorau a chydnabu'r pwynt ynglŷn â'r lefel isel o ymwybyddiaeth ar ymyriadau penodol.

13. Cytunodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ynglŷn â'r angen i wneud busnes yn fwy cydnerth a chydnabu'r cyfleoedd a oedd ar gael ar gyfer creu amgylchedd glanach, gwyrddach. Byddai'n ymweld â TATA a chyfeiriodd at y camau breision a wnaed gan y cwmni i leihau ei ôl troed carbon. Cydnabu bwynt WESB bod busnesau'n amlhaenog a phwysigrwydd cydnabod y proffil sgiliau yng Nghymru.

14. Diolchodd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth am eu cyfraniad ac awgrymodd y dylai'r Cyngor ddychwelyd at y mater hwn ar ddyddiad arall.

**EITEM 3 - Diweddariad ar Sgiliau gan WESB**

15. Gwnaeth Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth wahodd WESB i roi ei ddiweddariad ar sgiliau. Cyfeiriodd WESB at yr ymgynghoriad ar y cwricwlwm newydd ac anogodd yr aelodau i gyfrannu, gan gyfeirio at frecwast busnes sydd ar y gweill ym mis Gorffennaf pan fyddai hwn yn cael ei drafod. Crybwyllodd nodyn diweddar roedd wedi anfon i Lywodraeth y DU ar y Fframwaith Prentisiaethau a chyfeiriodd at y bartneriaeth barhaus rhwng Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a chyrff Bargeinion Dinesig a Thwf sy'n angenrheidiol i lywio'r rhagolygon sgiliau. Rhoddodd rybudd am Lefelau T. Mae Llywodraeth Cymru a'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ar fin cynnal ymgyngoriadau.

16. Cyfeiriodd WESB at bryderon o ran y golofn sgiliau yn y Cynllun Cyflogaeth cyfredol. Er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith cynllunio i'r dyfodol gofynnodd am gyngor ar y rhaniad sectoraidd o ran y 200 o Gontractau Economaidd sydd ar waith ar hyn o bryd. Amlinellodd mai'r her fawr i WESB a'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yw bod ar flaen y gad o ran economïau datblygol o ystyried yr amser sydd ei angen i ddylunio cwrs i ddarparu'r set sgiliau priodol. Rhoddodd anogaeth i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gallai ymateb yn gyflymach i'r cyfleoedd a gyflwynir.

17. Diolchodd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth i WESB am ei ddiweddariad. Cadarnhaodd y byddai'n trefnu i dystiolaeth y Cynllun Gweithredu ar yr Economi gael ei rhannu â WESP.

***CAM GWEITHREDU: Swyddogion i ddarparu dadansoddiad sectoraidd o'r Contractau Economaidd a gwblhawyd hyd yn hyn.***

**EITEM 4 – Polisi Economaidd Rhanbarthol**

18. Cyflwynodd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth yr eitem yn fras cyn trosglwyddo’r awenau i Sioned Evans a Peter Ryland. Cyfeiriodd yr aelodau at y papur cysylltiedig a oedd yn pwysleisio'r polisïau presennol ac arfaethedig yn gysylltiedig â datblygu economaidd rhanbarthol. Amlinellodd y model cyfredol sy’n canolbwyntio ar Unedau Rhanbarthol o dan arweinyddiaeth strategol y Prif Swyddogion Rhanbarthol. Roedd y Prif Swyddogion Rhanbarthol hyn bellach yn eu swyddi'n ffurfiol ac maent yn parhau â rhaglen o ymgysylltu a sgyrsiau ag awdurdodau lleol a chyrff eraill y sector cyhoeddus a busnesau ar draws y rhanbarth. Byddai Cyllidebau Dangosol Rhanbarthol yn cael eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf a byddai cynlluniau rhanbarthol yn llywio blaenoriaethau a gwariant. Yna trosglwyddodd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth yr awenau i Sioned Evans a Peter Ryland i arwain y drafodaeth.

19. Esboniodd Sioned mai rôl y Prif Swyddogion Rhanbarthol oedd hyrwyddo a chyfathrebu'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi, gan wrando ar gynlluniau a dyheadau partneriaid a'u deall, meithrin cydberthnasau a chydosod gweithgareddau. Roedd yr unedau rhanbarthol yn pontio o ddull gweithredu yn seiliedig ar sector i un sy'n canolbwyntio ar gyflawni rhanbarthol. Roedd y tri thîm rhanbarthol wedi mabwysiadu strwythur cyffredin ar gyfer eu cynlluniau rhanbarthol, fel bod gan bob un edrychiad ac ymdeimlad tebyg, er y byddai'r cynnwys a'r blaenoriaethau penodol yn wahanol wrth gwrs. Amlinellodd Sioned sut y byddai'r model yn caniatáu dull gweithredu cynyddrannol. Byddai’n ymestyn y cwmpas dros amser i helpu i flaenoriaethu buddsoddiadau rhanbarthol yn y dyfodol ac adeiladu'r partneriaethau rhanbarthol wedi'u hatgyfnerthu a fyddai eu hangen yn y tirlun ar ôl Brexit. Cafodd y Prif Swyddogion Rhanbarthol eu cydosod o ran yr angen i strategaethau rhanbarthol wneud synnwyr i'r rheini y maent yn effeithio arnynt.

20. Gwnaeth Sioned ail-gadarnhau ymrwymiad i ddefnyddio cyllid amnewid i gefnogi uchelgeisiau’r Cynllun Gweithredu ar yr Economi ar gyfer twf economaidd cynaliadwy a mwy cytbwys, gan fynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhwng y rhanbarthau ac oddi mewn iddynt. Ychwanegodd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd i roi cyngor arbenigol ar yr arferion rhyngwladol gorau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu trefniadau olynwyr a llywio'r gwaith o fwrw ati gyda’r Cynllun Gweithredu ar yr Economi.

21. Pwysleisiodd Sioned bwysigrwydd sicrhau bod cynlluniau datblygu economaidd rhanbarthol a gwaith rhanbarthol yn gydgysylltiedig ym meysydd cynllunio, trafnidiaeth, sgiliau, adfywio, tai a chyda WEFO ar y Cyllid Ffyniant Gyffredin ac y byddai'n chwilio am gyfleoedd i integreiddio gwaith ar draws y llywodraeth. Roedd pwysigrwydd cysylltiadau trawsffiniol a gweithio ar draws ffiniau yn cael ei gydnabod gan dimau rhanbarthol. Byddai Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod trefniadau llywodraethu i oruchwylio'r cynlluniau yn gymesur ac yn effeithiol ac y byddai buddiannau'r sector preifat, y sectorau cyhoeddus a'r trydydd sector yn cael eu tynnu ynghyd.

22. O ran cyllid yr UE, dywedodd Peter Ryland y byddai cynnal lefelau cyllido cyfredol yr UE yn hanfodol i sicrhau cydbwysedd economi'r DU ac i ddatblygu Cymru mewn modd cynaliadwy yn gyffredinol. Yn erbyn cefndir hyd yn oed mwy ansicr, roedd Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod â busnesau, partneriaid a chymunedau ledled Cymru i ddeall ac asesu cysylltiadau a risgiau, gan gynnwys busnesau'n ffoi a'r peryglon ohonynt yn cau. Roedd Llywodraeth Cymru yn ceisio tynnu ynghyd ffynonellau data gwahanol i'w helpu i ddeall yr effeithiau gofodol a'r risgiau sy'n codi o senarios Brexit gwahanol.

23. Esboniodd Peter fod Llywodraeth y DU wedi gohirio ymgynghoriad fwy nag unwaith ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin, ac na fyddai hyn yn digwydd tra bo ras am yr arweinyddiaeth yn mynd rhagddi. Roedd y prinder ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn destun pryder, yn enwedig pan fo'r angen am gryfhau gweithio rhwng llywodraethau yn datblygu'n bwysicach nag erioed. Gobeithiwyd y byddai Llywodraeth y DU yn ailystyried ei ddull gweithredu dros yr haf gan arwain at gytundeb posibl ar amnewid y cyllid yn gyflym i ddod â'r ansicrwydd i sefydliadau ledled Cymru i ben. Cyfeiriodd Peter at sefydlu pedwar gweithgor – Gweithredu, Monitro; Gwerthuso a Rheoli ar draws Ffiniau – a sut y byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu ymgysylltu yn y dyfodol.

24. Cyfeiriodd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth at gyfarfodydd diweddar ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru pan oedd wedi ailadrodd safbwynt Llywodraeth Cymru ar amrywiaeth o faterion. Dywedodd y byddai penodi Prif Swyddogion Rhanbarthol a dull gweithredu rhanbarthol ategol i ddatblygu economaidd yn gwrthsefyll beirniadaethau blaenorol fod cymorth Llywodraeth Cymru yn wasgarog.

25. Gwahoddwyd yr aelodau i gyfrannu, ac roedd sylwadau allweddol yn cynnwys:

i. Diolchodd **CBI Cymru** i Sioned am gymryd rhan mewn cyfarfod diweddar yng ngogledd Cymru a oedd wedi'i groesawu. Gofynnodd sut y bydd Bargeinion Dinesig, Bargeinion Twf ac ati'n cael eu cynnwys o fewn y dull gweithredu rhanbarthol i ddatblygu economaidd?

ii. Cyfeiriodd **TUC Cymru** at bwysigrwydd cefnogi cyflogwyr mawr yn ogystal â busnesau bach newydd – dylid canolbwyntio ar ddarparu gwaith teg yn hytrach nag a oedd y cyfarwyddwr yn byw yn yr ardal leol. Roedd perygl y byddai'r dull rhanbarthol yn tanseilio ymrwymiadau Cymru gyfan i ddarparu gwaith teg drwy bartneriaeth gymdeithasol fel un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru. Mae gan bartneriaid cymdeithasol broblemau amlwg mewn perthynas â chapasiti wrth iddynt gefnogi strwythurau manwl Cymru gyfan yn ogystal â nifer o strwythurau economaidd lleol. Mae pryderon difrifol y bydd canlyniadau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn adlewyrchu blaenoriaethau San Steffan yn hytrach na blaenoriaethau Llywodraeth Cymru – yn enwedig mewn perthynas â gwaith teg a phartneriaeth gymdeithasol. Dywedodd TUC Cymru fod angen dealltwriaeth gliriach o sut mae'r gwahanol strwythurau a strategaethau yn cyd-fynd er mwyn targedu trafodaethau rhwng partneriaid cymdeithasol yn well.

iii. Awgrymodd **ICAEW** y dylai strwythurau adeiladu ar gyrff sy'n bodoli eisoes gan ei fod yn debygol y byddai cyrff sy'n bodoli eisoes yn gallu ymdopi â newid o ran gweithdrefnau.

iv. Awgrymodd **Siambr Fasnach De Cymru** y byddai'r dull gweithredu rhanbarthol yn fwy treiddadwy ac y byddai Prif Swyddogion Rhanbarthol yn gallu achub ar gyfleoedd trawsffiniol i ddatblygu gallu rhanbarthau lle y bo'n briodol. Gofynnwyd sut y gallai'r darn rhanbarthol gynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu cadwyn gyflenwi?

v. Dywedodd y **Ffederasiwn Busnesau Bach** ei fod yn teimlo mai'r dull gweithredu rhanbarthol oedd y trywydd cywir ond teimlai fod angen gweld y Prif Swyddogion Rhanbarthol yn fwy yn y farchnad.

26. Diolchodd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth i'r Aelodau am eu sylwadau. O ran gweledigaeth y Prif Swyddogion Rhanbarthol, dywedodd mai dim ond yn ddiweddar roeddent wedi cael eu penodi a chydnabu mai eu rôl oedd ymgysylltu'n weithredol â rhwydweithiau busnes a phartner. O ran addasrwydd y Fargen Ddinesig/Twf, dywedodd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ei fod yn dymuno gweld timau datblygu economaidd rhanbarthol

wedi'u cydgrynhoi a fyddai'n lleihau cymhlethdodau gweithredu gyda chwmnïau ag un drws yn unig i gael mynediad at gymorth. Roedd yn teimlo bod angen cydbwysedd ar fater mentrau cenedlaethol a rhanbarthol. Awgrymodd y dylai is-swyddfeydd undebau llafur fod yn cyfrannu at dimau rhanbarthol Llywodraeth Cymru gan arwain at wybodaeth wedi'i chydgrynhoi.

***[Gadawodd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth y cyfarfod ar y pwynt hwn a gwnaeth Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth gadeirio'r cyfarfod wedyn]***

**Eitem 5 – Gwella'r Amgylchedd Masnachu yng Nghymru**

27. Gwnaeth Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth wahodd Paul Byard i arwain ar yr eitem hon. Cyflwynodd Paul ei bapur a thynnodd sylw at dueddiadau pryderus sy'n dod i'r amlwg yn y sector gweithgynhyrchu yng Nghymru, gan gynnwys gostyngiad mawr o ran buddsoddiad, lleihad o ran archebion, gostyngiad o ran cynhyrchiant a diffyg pentyrru cyflenwadau tymor byr i wrthsefyll effeithiau dirwasgiad economaidd. Mae'n ymddangos fel pe bai'r diwydiant modurol sy'n dioddef yr effaith fwyaf gyda gyda chyd-osodwyr cerbydau a'u cadwyni cyflenwi yn cyhoeddi bod llawer o fewn y diwydiant yn colli eu swyddi. Nododd Paul fod angen symud ar frys i adfer hyder byd busnes a bod angen i Lywodraeth Cymru weithredu i ddiogelu'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru at y dyfodol.

28. Byddai'r dyddiad cau o ran gadael yr UE ddiwedd mis Hydref yn ysgogi'r llyfrau archebion gan y byddai cwmnïau yn pentyrru cyflenwadau cydrannau. Ond byddai hyn yn arwain at guddio'r sefyllfa economaidd wirioneddol gan y byddai tynnu buddsoddiad pentyrru cyflenwadau yn datgelu mewn gwirionedd bod y DU yn anelu'n syth at ddirwasgiad. Gwnaeth Paul annog Llywodraeth Cymru i ddangos bod Cymru ar agor ar gyfer busnes, i flaenoriaethu cymorth ar gyfer arloesi, a chreu tasglu gyda'r cyfrifoldeb o ddiogelu'r sector gweithgynhyrchu at y dyfodol.

29. Gwnaeth Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ddiolch i Paul am ei gyfraniad a gwahoddodd sylwadau gan yr Aelodau.

    i. Cyfeiriodd **Siambr Fasnach De Cymru** at Arolwg Economaidd y Siambr a oedd yn crybwyll y ffigurau masnachu gwannaf ers deng mlynedd. Byddai copi o'i adroddiad ym mis Gorffennaf yn cael ei ddarparu er gwybodaeth.

       ***CAM GWEITHREDU – Siambr Fasnach De Cymru i ddarparu ei adroddiad ym mis Gorffennaf i Aelodau'r Cyngor.***

    ii. Dangosodd **TUC Cymru** ei gefnogaeth o ran diogelu'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru at y dyfodol. Awgrymwyd hefyd fod angen trafodaeth rhwng partneriaid cymdeithasol am gefnogi cyflogwyr gwaith teg i ddatblygu, yn hytrach nag edrych ar gymorth dim ond ar gyfer cwmnïau lle mae perygl uniongyrchol y byddant yn cau.

    iii. Gwnaeth **Sefydliad y Cyfarwyddwyr** annog sefydlu Tasglu i atal cau busnesau yn hytrach nag ymateb iddynt.

    iv. Gwnaeth **WESB** bwysleisio y dylai cymorth fod yn gyson ac wedi'i gynllunio i helpu cwmnïau i symud i fyny'r gadwyn gwerth a symud i ddarparwyr Haen 2 neu 3. Nodwyd yn y pen draw y byddai'r cyflymder y gallai cwmni ddatblygu sgiliau ei weithlu benderfynu a fyddai'n goroesi neu'n methu. Awgrymwyd y byddai ymarfer mapio'r gadwyn gyflenwi yn gwella ein dealltwriaeth o'r dirwedd ac yn helpu i benderfynu ar feysydd blaenoriaeth y dylid buddsoddi ynddynt a'u cefnogi.

v. Awgrymodd **Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig** y dylai'r cyngor dderbyn diweddariad ar waith yr Athro Phil Brown.

***CAM GWEITHREDU – Swyddogion i drefnu diweddariad ar sefyllfa bresennol astudiaeth yr Athro Brown***

vi. Holodd **Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru** am gyngor ar flaenoriaethu prosiectau o dan Brosiectau Seilwaith y Diwydiant.

30. Diolchodd Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth i'r aelodau am eu hadborth a'u her. Cyfeiriodd at gyfuniad o ddigwyddiadau'n taro'r sector gweithgynhyrchu, gan effeithio'n ddifrifol ar ei gwmnïau a'r amgylchedd cyfyngedig cyfredol yn llesteirio twf a buddsoddiad. Gwnaeth Paul Byard ddadlau dros osod mater yr amgylchedd cyfyngedig i'r naill ochr gyda Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu twf y sector gweithgynhyrchu yn hytrach nag yn goruchwylio ei ddirywiad. Roedd yn ystyried mai dwy fuddugoliaeth ar unwaith fyddai penodi arbenigwyr arloesi ychwanegol a phenderfynu'n llawer cyflymach ar brosiectau sy'n chwilio am gyllid arloesi.

31. Dywedodd Andrew Slade fod y fframweithiau ar gyfer cymorth arloesi eisoes ar waith ac yn gweithredu'n dda. Roedd yn cydnabod y sylwadau a wnaed o ran yr amser anodd sydd ar y gweill a chanlyniadau Brexit, y rhai y gwelir ac na rhagwelir, ac awgrymodd y dylai'r Cyngor ystyried y cwestiwn 'beth sy'n digwydd nesaf?' yn ei gyfarfod nesaf.

***CAM GWEITHREDU – Swyddogion i drefnu trafodaeth ddilynol yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.***

32. Cynigiodd Paul Byard ei gefnogaeth lawn a mynegodd Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth yr awydd i barhau â'r drafodaeth gyda Paul.

***CAM GWEITHREDU – Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth i siarad ymhellach â Paul Byard am ei syniadau ar gyfer diogelu'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru at y dyfodol.***

33. Diolchodd Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth i Aelodau'r Cyngor am eu presenoldeb a chadarnhaodd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 14 Hydref 2019.

**DIWEDD Y CYFARFOD**